

TEMPLED DISGRIFIAD O RÔL GWIRFODDOLWR

Maes Portffolio: Addysg ac Ieuenctid, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid	
Lleoliad: Amryw o leoliadau ar draws Sir y Fflint	
Sail Gweithgaredd (at ddibenion treuliau): Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug	
Teitl Gweithgaredd: Aelod o'r Panel Cymunedol	
Goruchwyliwr Gwirfoddol: Alun Winstanley	
1.	<p>Disgrifiad byr o'r gweithgaredd:</p> <p>Bydd plant a phobl ifanc 10 - 17 oed sy'n ymddangos yn y Llys Ieuenctid, sy'n pledio'n euog ac nid wedi'u dyfarnu'n euog o'r blaen, fel arfer yn cael eu trin drwy gyfrwng Gorchymyn Atgyfeirio. Mae hyd y Gorchymyn Atgyfeirio yn cael ei bennu gan y Llys (3 - 12 mis). Yna, caiff y person ifanc ei gyfeirio at Banel Troseddwr Ifanc. Mae Aelodau'r Panel Cymunedol yn eistedd ar Baneli Troseddwr Ifanc ac yn defnyddio dulliau cyfiawnder adferol i ymgysylltu â'r troseddwr a lle bo'n briodol, eu dioddefwr, er mwyn caniatáu i'r person ifanc gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad, gwneud iawn am y niwed a achoswyd ganddynt a'u helpu i ailintegreiddio yn ôl i'w cymuned. Rhaid i Aelodau o'r Panel Cymunedol fod dros 18 oed wrth wneud cais. Bydd y swydd hefyd angen gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>
2.	<p>Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eistedd ar Gyfarfodydd Panel Cymunedol ac ymgysylltu â phobl ifanc, rhiant(rhieni), gofalwr(gofalwyr) a dioddefwyr mewn sgwrs adferol • Sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael cyfle i ddweud eu dweud ac yn cael llais • Helpu pobl ifanc gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad • Cynorthwyo pobl ifanc i newid eu hymddygiad • Cynorthwyo pobl ifanc i wneud iawn am y niwed y maent wedi'i achosi i bobl eraill • Cynorthwyo pobl ifanc a'u dioddefwyr i gael eu hailintegreiddio i'w cymunedau. • Creu Contractau Troseddwr Ifanc • Mynychu hyfforddiant a goruchwyliaeth gyda Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint • Adolygu cynnydd person ifanc a lle bo angen, cyfeirio achosion yn ôl i'r

	<p>Llys am beidio â chydymffurfio neu ddirymu cynnar.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid i ddatblygu Prosiectau Cyfiawnder Adferol • Cyfathrebu gyda'ch rheolwr atebol a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newid i'ch amgylchiadau • Cynnal cyfrinachedd, diogelu data a chynnal eich hun yn unol â gwerthoedd a moeseg Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint.
3.	<p>Amserlen:</p> <p>Recriwtio agored. Mae hyfforddiant ar gyfer Aelodau Panel Cymunedol yn digwydd yn flynyddol. Cyfnod recriwtio presennol yn dod i ben 31 Hydref gyda hyfforddiant yn digwydd yn Nhachwedd 2016.</p> <p>Cysylltwch â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint am fwy o fanylion a ffurflen gais ar 01352 701125.</p>
4.	<p>Sgiliau a phrofiad sydd eu hangen (os o gwbl):</p> <p>Rydym yn awyddus i ddenu gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gymuned gydag amrywiaeth o brofiad. Yn y bôn mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â diddordeb brwd mewn cefnogi eu cymunedau, pobl ifanc a gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Rhaid i wirfoddolwyr fod â sgiliau cyfathrebu da ac yn dangos gallu i ymgysylltu â phobl ifanc, rhieni / gofalwyr a dioddefwyr. Rhaid i wirfoddolwyr allu hwyluso'r sgwrs adferol wrth aros yn ddiuedd ac yn sensitif i anghenion eraill. Dylai gwirfoddolwyr gael sylfaen werthoedd sy'n tystio gwerthoedd ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu, gyda gwerthfawrogiad y gall pobl newid a chael eu hailintegreiddio i'r gymuned. Dylai gwirfoddolwyr allu ymateb i amrywiaeth a chynnal cyfrinachedd.</p>
5.	<p>Unrhyw ofynion corfforol gweithgaredd:</p> <p>Nid oes unrhyw ofynion corfforol penodol. Disgwylir i Aelodau o'r Panel Cymunedol allu mynychu cyfarfodydd Panel Cymunedol mewn lleoliadau amrywiol o amgylch Sir y Fflint.</p>
6.	<p>Hyfforddiant sy'n ofynnol (os o gwbl):</p> <p>Bydd rhaglen hyfforddiant lawn yn cael ei darparu gan Hwyluswyr Cyfiawnder Adferol hyfforddedig o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Mae angen cwblhau'r hyfforddiant a'r cyfweiliad.</p> <p>Os bydd gwirfoddolwyr yn llwyddo i gael eu penodi i fod yn Aelod o'r Panel Cymunedol, mae disgwyl y byddwch yn mynychu hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus bob mis fel rhan o'ch rôl.</p>

7.	<p>Adnoddau (y gwirfoddolwr sy'n atebol/gyfrifol yn bersonol am y canlynol):</p> <p>Fel Aelod o'r Panel Cymunedol, rydych yn gyfrifol am gynrychioli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Rhaid i Aelodau o'r Panel Cymunedol ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau a gwerthoedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Yn unol â hyn, bydd disgwyl i chi gadw at gyfrinachedd llym a diogelu data. Rhaid i unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau neu doriadau i'r uchod gael eu cyfleu yn syth i'ch rheolwr atebol. Disgwylir i Aelodau o'r Panel Cymunedol gymryd rhan mewn ymarfer nad ydynt yn gwahaniaethu, fel rhan o'u rôl.</p> <p>Ni ddylai unrhyw adroddiadau neu asesiadau a gewch fel rhan o'ch rôl gael eu copïo neu eu rhannu gyda thrydydd parti, a rhaid eu dychwelyd i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn dilyn Cyfarfod y Panel.</p> <p>Mae Aelodau'r Panel Cymunedol yn gyfrifol am fynychu hyfforddiant a chynnal cymwyseddau er mwyn cwblhau'r rôl.</p>		
8.	<p>Lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen:</p> <p>Bydd Aelodau'r Panel Cymunedol yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a bydd yn ofynnol ymgymryd â hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus fel rhan o'u rôl. Mae hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus yn digwydd yn fisol. Bydd methu â mynychu hyfforddiant neu oruchwyliaeth yn golygu y bydd eich penodiad yn cael ei dynnu'n ôl.</p>		
9.	<p>Gwybodaeth arall (e.e. materion gyda mynediad i'r safle, gweithgaredd yn gofyn am eich cludiant eich hun ac ati):</p> <p>Mae Cyfarfodydd Panel Cymunedol yn cael eu cynnal ar hyd a lled Sir y Fflint mewn gwahanol leoliadau ac amseroedd. Disgwylir i Aelodau o'r Panel Cymunedol fod yn hyblyg a gallu mynychu amrywiol leoliadau i gyflawni eu rôl. Nid yw'n ofyniad bod yn rhaid i wirfoddolwyr allu gyrru, fodd bynnag, rhaid i wirfoddolwyr allu mynychu lleoliadau amrywiol ledled y sir pan fo angen.</p> <p>Bydd costau teithio'n cael eu had-dalu er mwyn hwyluso eich rôl.</p>		
	Enw	Llofnod	Dyddiad
<p>Disgrifiad o'r Gweithgaredd wedi'i ysgrifennu gan: [Goruchwylwr]</p>			
<p>Cytunwyd ar y Disgrifiad o'r Gweithgaredd gan: [Gwirfoddolwr]</p>			